Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Mai 2016

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 24 MAI 2016** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2016 (copi'n amgaeedig).

**5 ADOLYGIAD AC YMGYNGHORIAD GWASANAETHAU GOFAL MEWNOL** (Tudalennau 15 - 240)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant (copi'n amgaeedig) yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddyfodol gwasanaethau gofal cymdeithasol mewnol y Cyngor ar gyfer pobl hŷn ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer swyddogion i edrych ar y dewisiadau ar gyfer pob un o'r pedwar sefydliadau gofal yn fanylach gyda golwg ar wneud penderfyniadau terfynol ar ba opsiynau ddylai cael eu gweithred.

**6 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 241 - 254)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi’n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a’r cynnydd ar strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

**7 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 255 - 258)

Derbyn Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet sydd wedi’i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD
Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**8 DYFARNU CONTRACT AR GYFER GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL A CHOMPOSTIO GWASTRAFF GWYRDD** (Tudalennau 259 - 262)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi’n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract sengl ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol a chontract sengl ar gyfer compostio gwastraff gwyrdd.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Hugh Irving |
| Julian Thompson-Hill | Huw Jones |
| Eryl Williams | Barbara Smith |
| Bobby Feeley | David Smith |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned